# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 15 Rhagfyr 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aled O Griffiths, Paul Hughes, Huw M Williams.

Estynodd y Cadeirydd croeso a dymunodd Nadolig Llawen i pawb.

**16.67. Cofnodion cyfarfod 24 Tachwedd 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.68. Materion yn codi o'r cofnodion.**
51.4 Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Dim newid yn y sefyllfa. Cytunwyd ysgrifennu llythr at Prif Weithredwr Tai Canolbarth Cymru am y sefyllfa gyda'r sbwriel.
57.1 Ymgynghoriad am dyfodol nifer blwch ffon yn ardal Sir Powys. Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cynnwys sylwadau y Cyngor Cymuned yn eu Adroddiad i cwmni BT.

**16.69. Cynllunio.**
69.1 P/2016/1125. Codi modurdu ger Bwthyn Gwyn, Llanwrin. Cytunwyd cefnogi y cais.
69.2 P/2016/1143. Codi estyniad i'r ty yn Trodyffordd, Cemaes. Cytunwyd cefnogi y cais.
69.3 P/2016/1219. Gwaith i'r simne ar ty Tan-y-ffordd, Cemaes. Cytunwyd cefnogi y cais.

**16.70. Eitemau i'w talu.**
70.1 Taliad am y torch at Sul y Cofio. Cytunwyd taliad o £20-00.
70.2 Taliad i Mr Wyn Evans am edrych ar ol y Cof Golofn. Cytunwyd taliad o £50-00.

**16.71. Gosod y Praesept.**
71.1 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gosod Praesept o £12,500 am y blwyddyn ariannol 2017/18.

**16.72. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
72.1 Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr yn Ardal Cymuned Glantwymyn. Eglurodd y Clerc ei fod wedi cyfarfod Mr Stephen Coventry o gwmni Amey, y contractwyr ar y prosiect i adnewyddu y pibellau dwr yn yr ardal. Dangosodd y Clerc cynlluniau y prosiect i'r Cynghorwyr. Cytunwyd gofyn am cyfle i'r cyhoedd cael ymgynghoriad yn Neuadd Cwmlline yn ogystal i'r yngynghoriad yn Neuadd yr Eglwys yng Nghemaes. Cytunwyd hefyd gofyn i Amey cael ymgynghoriad yn Neuadd Glantwymyn i phobl Darowen a Talywern cael cyfle i gweld y cynlluniau,

**16.73. Gohebiaeth.**
73.1 Llythr gan Glyn Davies AS yn ymestyn croeso i Gynghorwyr at cyfarfod yn Y Trallwng ym Mis Ionawr i thrafod diweddariad ar y newidiau i'r aradlaoedd etholaeth.
73.2 Llythr a siec gan Rhys Bleddyn ar rhan cwmni I. B. Williams a'i Fab ynglyn a gosod beddfaen ar bedd y diweddar John Perkins ym mynwent Eglwys Darowen.
73.3 Llythr gan cwmni Fisher German ynglyn a cynllyn i osod pibellau dwr ar draws tir comin yn Cwmlline. Cytunwyd gwneud dim sylwad.
73.4 Copi o llythr gan Walter Lloyd Jones & Co. i Gyngor Sir Powys ar rhan Gwesty'r Penrhos ynglyn y sefyllfa gyda'r hen toiledau cyhoeddus. Cytunwyd ysgrifennu llythr at y Cyngor Sir yn cefnogi cais Gwesty'r Penrhos i prynnu safle y toiledau oherwydd rhesymau diogelwch.
73.5 Llythr gan Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys yn egluro mi fydd dim cynllun ariannol newydd i cymeryd lle yr hen system "concurrent functions" oherwydd diffyg arian gan y Cyngor Sir.
73.6 E-bost gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglyn ag ymgynghoriad ar newid enw y Cynulliad.

73.7 E-bost gan Mark Stafford-Tolley, Cyngr Sir Powys, ynglyn ag adolygiad Cynllun Gwella Llwybrau Tramwy Powys.
73.8 E-bost gan Meic Llewellyn yn Estyn croeso i Cynghorwyr mynychu digwyddiadau Wythnos Euskara Cymru yn ystod Mis Ionawr i gadarnhau cysylltiadau rhwng pobl Cymru a Gwlad y Basg.
73.9 E-bost gan Un Llais Cymru ynglyn a Garddwestau Palas Buckingham.
73.10 E-bost gan Mr Keith Price ynglyn a phroblemau gweld y ffordd yn glir ar hyd y ffordd fawr ger Cwmlline oherwydd gordyfiant coed. Eglurodd Cyng Ann Williams fod yna hefyd problem gweld ar hyd y ffordd fawr oherwydd fod yna arwydd mewn lle anaddas. Cytunwyd gofyn i Mr Andew Jones o'r Adran Priffyrdd am cyfarfod i edrych ar y sefyllfa.
73.10 Cylchlythr Mis Rhagfyr Russell George AC.
73.11 Cylchlythr Gaeaf 2016 Archifau Powys.

**16.74. Unrhyw fater arall.**
74.1 Problemau parhaol gyda cael apwyntiad yn Canofan Iechyd Glantymyn. Gofynodd Cyng Ann Williams am diweddaraid ar y sefyllfa. Eglurodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at y Canolfan Iechyd unwaith eto ynglyn a phryderon y Cynghorwyr am y sefyllfa. Gobeithir cael ymateb erbyn y cyfarfod nesaf.
74.2 Problem gyda pant ar draws y ffordd ger Tynant ar y ffordd rhwng Comins Coch a Darowen. Gofynodd Cyng John Pughe Jones am diweddariad ar y sefyllfa. Cadarnhaodd Cyng Gwilym Fychan ei fod wedi dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir. Cytunwyd gwasgu ar y Cyngor Sir i edrych ar y sefyllfa eto.
74.3 Problemau gyda golau stryd yn Nhalywern. Eglurodd Cyng Geraint Wigley fod yna dau golau ddim yn gweithio yn y pentref. Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y goleuadau.
74.4 Problem gyda canllaw Bont Dolbont ar y ffordd i Talywern. Cododd Cyng Geraint Wigley pryderon am cyflwr y canllaw. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion Cyngor Sir Powys.
74.5 Problemau gyda Gorsaf Pwmpio Cwmlline. Gofynodd Cyng Deryck Lewis am diweddariad ar y sefyllfa. Ymddiheurodd y Clerc fod dim byd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd gofyn i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru am cyfarfod i edrych ar y sefyllfa.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 26 Ionawr 2017.**